Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

# Ymateb Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru i: Rhybuddiadau Dargyfeiriol a Chymunedol – Cod Ymarfer Drafft

Yn cau 13 Hydref 202
Ymateb a gyflwynwyd drwy'r arolwg ar-lein

Cwestiynau:

**1.A ydych yn 'berson awdurdodedig' yn cynrychioli asiantaeth erlyn sy'n rhoi DTALlau?**
Nac ydw
*Os ydych, enwch yr asiantaeth rydych yn ei chynrychioli a nodwch sut bydd y fframwaith newydd yn effeithio arnoch.*
N/A

**2.A ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y Cod Ymarfer yn cadw cydbwysedd priodol rhwng darparu fframwaith clir ar gyfer penderfyniadau a hyblygrwydd mewn achosion penodol?** *(Eglurwch eich ateb)*
Y naill na'r llall.
Ymddengys bod y Cod Ymarfer yn darparu'r cydbwysedd cywir rhwng fframwaith clir a hyblygrwydd achosion. Fodd bynnag, teimlwyd bod diffyg gwybodaeth neu fanylion o ran troseddwyr mynych a sut y gallai fod angen eu trin, neu'r broses ddirwyon yn enwedig pan nad ydynt yn cael eu talu a sut y byddent yn rhyngweithio â systemau'r llysoedd. Ymddengys nad oedd unrhyw gysylltiadau wedi'u ffurfio â meysydd pryder eraill a allai orgyffwrdd, megis Arfau Troseddol, Caethwasiaeth Fodern a Diogelu (yn enwedig pan fo plentyn neu oedolyn diamddiffyn yn gysylltiedig, naill ai fel dioddefwr neu droseddwr).

**3. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y canllawiau ar y berthynas rhwng y Datrysiad Cymunedol, y Rhybuddiad Cymunedol a'r Rhybuddiad Dargyfeiriol, a'r priod ddefnydd ohonynt, yn glir yn y Cod Ymarfer?** *(Eglurwch eich ateb)*
Cytuno
Yn y gweithdy a gynhaliwyd gan Rwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru, cafwyd y wybodaeth bod y defnydd priodol ar gyfer y Datrysiad Cymunedol, y Rhybudd Cymunedol a'r Rhybudd Dargyfeiriol yn glir i'r rhai a oedd yn bresennol. Fodd bynnag, mynegwyd pryder ganddynt hefyd ynghylch y diffyg gwybodaeth am gyfiawnder adferol ac am sut y gallai fod yn gyswllt. Fe'i gwelwyd fel pedwerydd dull o fewn yr opsiynau y Tu Allan i'r Llys, nid dim ond fel asesiad ar gyfer addasrwydd fel amod o un o'r Rhybuddion.

**4. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod pwyslais priodol yn y Cod Ymarfer ar a) cynnwys y dioddefwr? b) bodlonrwydd y dioddefwr?** *(Eglurwch eich ateb)*
a) Anghytuno
Barn aelodau'r gweithdy oedd er bod cyfranogiad dioddefwyr yn y penderfyniad cychwynnol yn weddol glir, nid oedd yn ymddangos bod unrhyw beth o ran hysbysu'r dioddefwr am ganlyniad llwyddiannus ai peidio. Os bydd Rhybudd Dargyfeiriol yn methu, yna efallai y bydd angen i'r dioddefwr ddarparu tystiolaeth yn y Llys. Fodd bynnag, nid oedd gwybodaeth ynghylch hysbysu'r dioddefwr o'r newid posibl hwn neu am wneud penderfyniad. Mae cyfle i'r Rhybuddion gael eu diwygio mewn trafodaeth â'r tramgwyddwr, ond nid oedd hyn i'w weld yn wir gyda'r dioddefwr, a byddai'n cael ei waredu o'r broses ar ôl cytuno.
Gall fod rhywbeth y mae angen ei gynnwys hefyd ynghylch ymgysylltu pan fo un neu fwy o'r dioddefwyr o dan 18 oed a sut y gallant gael eu cynnwys yn y broses ochr yn ochr ag eiriolwr neu oedolyn cyfrifol.

b) Anghytuno
Fel y crybwyllwyd yn yr ateb i ran A, teimlwyd yn y gweithdy nad oeddent yn rhan o'r broses mwyach, unwaith y gwnaed y penderfyniad gan y dioddefwr i ddilyn y llwybr Gwaredu y Tu Allan i'r Llys.  Teimlwyd na chawsant wybod a oedd yr amodau wedi'u cwblhau'n llwyddiannus neu os oedd unrhyw newidiadau neu fethiant. Mynegwyd pryder hefyd ynghylch y posibilrwydd na fyddai iawndal yn cael ei dalu ac nid oedd yr opsiynau cyfyngedig y mae hyn yn eu gadael wedyn i'r dioddefwr wedi'u nodi'n glir, yn enwedig pan fydd Rhybudd Cymunedol yn cael ei ddefnyddio.

**5. Ar gyfer Rhybuddiadau Cymunedol (haen isaf), mae Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 yn pennu y gellir eu rhoi am unrhyw drosedd heblaw trosedd eithriedig (sef trosedd dditiadwy yn unig neu drosedd neillffordd neu drosedd ddiannod yn unig a bennwyd mewn rheoliadau). Rydym wedi cynnig y dylid cadw'r troseddau eithriedig sy'n cyfyngu'r defnydd o Rybuddiadau Syml presennol. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r dull hwn o weithredu?**
Cytuno

**Nodwch y troseddau eithriedig rydych yn cynnig eu hychwanegu, eu dileu neu eu diwygio ar gyfer Rhybuddiadau Cymunedol a'r rhesymau dros awgrymu'r rhain.**
Rydym yn cytuno â'r rhestr bresennol ond yn meddwl bod dau gategori ychwanegol ar goll, ac rydym wedi crybwyll y ddau ohonynt eisoes yn yr ymateb hwn. Y cyntaf yw cario neu drin Arfau Troseddol, megis cyllyll a llafnau, ond gall hefyd gynnwys eitemau fel tân gwyllt (lle nad yw deddfwriaeth drylliau yn berthnasol) a ddefnyddir naill ai fel arf neu sy'n bygwth cael eu defnyddio fel arf. Yr ail yw caethwasiaeth

fodern a cham-fanteisio nad ydym yn meddwl y byddai'n briodol i'r heddlu ei ystyried o ran ateb i waredu y tu allan i'r llys.

**6. Rydym wedi cynnig strwythur cosbau ariannol diwygiedig ar gyfer y rhybuddiadau newydd. Beth yw'ch barn am y strwythur hwn?** *(Eglurwch eich ateb)*
Nid oedd yr aelodau a gymerodd ran yn y gweithdy yn siŵr pa mor effeithlon oedd y defnydd o gosbau ariannol a sut fydden nhw'n arwain at unrhyw wersi'n cael eu dysgu er mwyn sicrhau newidiadau mewn ymddygiad yn y dyfodol.

**7. Mewn perthynas â defnyddio rhybuddiadau yr eilwaith, a fyddech yn gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r manylebau arfaethedig sydd wedi'u hamlinellu yn y Cod Ymarfer?**
Byddwn

**Os byddech, nodwch y newidiadau y byddech yn eu gwneud a pham.**
Rydym o'r farn y dylid cyfyngu ar nifer yr ail rybuddion y gellir eu rhoi, gan fod perygl iddynt gael eu trin yn ysgafn a brolio yn eu cylch fel y gwelwyd gydag ASBOs. Er y gallai fod achosion gwahanol a chyflyrau gwahanol oherwydd newidiadau mewn amgylchiadau, yr awgrym o'r gweithdy oedd na ddylai fod yn opsiwn i unigolyn gasglu sawl rhybudd am ymddygiad tebyg.

**8. Yn unol â Rhan 5 o'r Cod Ymarfer, dylai'r penderfyniad i roi rhybuddiad gael ei gydlofnodi gan Swyddog nad yw ar radd is na gradd Rhingyll (neu oruchwylydd cyfatebol yn staff yr Heddlu). A ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y radd hynafedd hon ar gyfer rhoi rhybuddiad yn un briodol?**
Cytuno
Ystyriwyd bod hon yn sefyllfa briodol i wrthlofnodi, ac y byddai angen yr awdurdod uwch ar ei chyfer pe bai Rhybudd Dargyfeirio yn cael ei ystyried am drosedd a oedd wedi'i heithrio.

**9.. Mewn rhai Heddluoedd, mae timau DTALlau canolog sy'n cyflogi staff yr Heddlu (yn hytrach na Swyddogion Heddlu). Er mwyn adlewyrchu hyn, mae'r Cod Ymarfer yn defnyddio'r term 'gradd gyfatebol yn staff yr Heddlu'. Yn eich barn chi, a yw'r term hwn yn glir a defnyddiol?**
Ydy
**Os ydych wedi dewis 'nac ydy', eglurwch eich ateb ac awgrymu sut y gellid gwella hyn.**
Er ein bod wedi cytuno, credwn y dylid ystyried cofnodi unrhyw hyfforddiant neu brofiad sy'n caniatáu iddynt fod yn 'gyfwerth' yn y modd hwn.

**10.Mae'r Cod Ymarfer yn pennu gofyniad i daliadau digolledu fod yn fforddiadwy.**

**a) A ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y gofyniad hwn yn ddigonol?**
*(Eglurwch eich ateb)*

Cytuno

Ymddengys fod y gofyniad a nodir yn y Cod Ymarfer yn ddigonol ar gyfer y cais fel amod posibl o fewn Rhybudd.

**b) A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y byddai'n well pennu terfyn uchaf ar gyfer taliadau digolledu?** *(Eglurwch eich ateb)*

Y naill na'r llall

Barn y rhai a oedd yn bresennol yn y gweithdy oedd mai bychan oedd y siawns y byddai troseddwr yn talu iawndal, yn enwedig pe bai'r swm yn uwch na'r hyn y gellid ei ddirwyo am beidio â chydymffurfio â'r amod.

**11.A ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y gwahaniaeth rhwng y gofyniad am addefiad ar gyfer y rhybuddiadau a'r prawf cod llawn (yn y Cod i Erlynwyr y Goron) wedi'i wneud yn glir yn y Cod Ymarfer?**

Y naill na'r llall

**Darparwch unrhyw awgrymiadau i wneud y gwahaniaeth hwn yn gliriach.**

Mae cyfaddefiad o euogrwydd fel rhan o'r Rhybuddion yn ymddangos yn glir yn y canllawiau a sut y gellir ei ddefnyddio yn y llys os bydd Rhybudd Dargyfeiriol yn methu, a bod erlyniad yn mynd rhagddo. Hyd yn oed gyda chyfaddefiad o euogrwydd yn y Rhybudd lle bydd yn rhaid cynnal y prawf cod llawn, gallai'r canllawiau fethu a gellir gwneud penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â'r achos. Nid oedd yn glir sut y byddai'r dioddefwr yn cael ei hysbysu na sut y byddai hynny'n cyd-fynd â dwyn troseddwyr i gyfrif, gan alluogi newid mewn ymddygiad er mwyn atal troseddau yn y dyfodol.

**12.A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r gofyniad am adrodd ar y defnydd o rybuddiadau, a'r dull o adrodd, gael ei orfodi'n gryfach yn y Cod Ymarfer?** *(Eglurwch eich ateb)*

Cytuno

Dylai'r defnydd o rybuddion fod yn rhan o'r broses adrodd a chraffu rheolaidd gan y Comisiynwyr a Phaneli'r Heddlu a Throsedd. Efallai y byddai'n briodol iddynt fod yn rhan o'r broses graffu ar achosion o dan Fframwaith y Panel Craffu Cymunedol (mae'r Swyddfa Gartref yn ymgynghori ar y fframwaith ar hyn o bryd). Gall defnyddio'r Paneli Craffu Cymunedol fod yn arbennig o bwysig os oes demograffeg benodol lle mae Rhybuddion yn cael eu defnyddio'n amlach, yn enwedig o ystyried y cynnig o gael rôl wrth graffu ar benderfyniadau ar stopio a chwilio.

**13.Wrth gynnig, egluro a gweinyddu rhybuddiad, a oes ystyriaethau eraill o ran hygyrchedd y dylid eu cynnwys yn y Cod Ymarfer heblaw'r rheini a bennwyd yn barod?**
Mae angen mwy o fanylion ynghylch ystyriaethau lleferydd ac iaith a gwahanol ieithoedd, gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain neu Makaton, sut i ymdopi pan na fydd troseddwr yn deall yr amodau oherwydd rhwystrau iaith neu rwystrau cyfathrebu eraill, fel dyslecsia neu gyflyrau gwybyddol neu golli cof.

**14.O safbwynt gweithredu, a oes unrhyw fylchau neu agweddau yn y Cod Ymarfer sy'n peri pryder neu a allai gael effeithiau anffafriol?**
Oes

**Os oes, eglurwch eich ymateb a nodi awgrymiadau ar gyfer ychwanegiadau, pethau i'w dileu neu ddiwygiadau i'r Cod Ymarfer er mwyn darparu ar gyfer agweddau ymarferol ar weithredu.**
Mae angen mwy o fanylion ynghylch ystyriaethau lleferydd ac iaith a gwahanol ieithoedd, gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain neu Makaton, sut i ymdopi pan na fydd troseddwr yn deall yr amodau oherwydd rhwystrau iaith neu rwystrau cyfathrebu eraill, fel dyslecsia neu gyflyrau gwybyddol neu golli cof.
Gweler ein hymateb i gwestiwn blaenorol mewn perthynas â dioddefwyr sy'n oedolion, troseddau lluosog, hygyrchedd, a throseddau eithriedig. Yn ogystal, credwn o safbwynt gweithredol y byddai'n ddefnyddiol cynnwys manylion ynghylch a yw dioddefwr o dan 18 oed a sut y dylid ystyried ei farn o ynghyd â rhiant neu warcheidwad. Hefyd, a ellir defnyddio eiriolaeth ar ran y plentyn neu'r unigolyn ifanc a sut y gellid gwneud hynny.

**15.A ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod yr atodiadau canlynol i'r Cod Ymarfer yn glir a buddiol:**

| | |
|---|---|
| • Atodiad A: Cymharu datrysiadau | Cytuno |
| • Atodiad B: Egwyddorion ar gyfer Rhybuddiadau Dargyfeiriol Cam-drin Domestig | Cytuno |
| • Atodiad C: Troseddau eithriedig penodedig | Cytuno |
| • Atodiad D – Amodau enghreifftiol | Cytuno |

**Os ydych yn anghytuno, nodwch sut y gellid gwneud yr atodiad(au) yn fwy buddiol.**
n/a

**16. A oes unrhyw fylchau neu agweddau yn y Cod Ymarfer sy'n peri pryder neu a allai gael effeithiau anffafriol ar unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig?**

Oes

**Os oes, eglurwch eich ymateb a nodi awgrymiadau ar gyfer ychwanegiadau, pethau i'w dileu neu ddiwygiadau i'r Cod Ymarfer er mwyn ymateb i'r pryderon neu effeithiau anffafriol hyn.**

Fel y crybwyllwyd yn flaenorol, teimlwyd nad oedd y Cod Ymarfer yn ymdrin yn glir â'r canlynol:

- Anabledd: Sut i reoli pan fydd gan ddioddefwr neu droseddwr broblemau cyfathrebu (lleferydd ac iaith) neu faterion gwybyddol neu'n ymwneud â'r cof, a allai effeithio ar ei allu i ymgysylltu'n effeithiol â'r broses.
- Y Gymraeg: Nid yw'r opsiwn i'r Gymraeg gael ei defnyddio yng Nghymru fel rhan o ddeddfwriaeth y Gymraeg yn cael ei grybwyll yn y cod.
- Economaidd-gymdeithasol: yn nodwedd o fewn deddfwriaeth Cymru ac felly dylid ei hystyried. Yn achos y Cod Ymarfer, gallai hyn fod yn gysylltiedig â'r rhai sy'n ddifreintiedig yn economaidd-gymdeithasol, yn llai tebygol o allu talu iawndal a dirwyon. Gallai arwain at anghymesuredd yn y system cyfiawnder troseddol yn hytrach na chael ei reoli drwy'r broses Gwaredu y Tu Allan i'r Llys.
- Rhywedd: Os mai casineb neu aflonyddu yw'r rheswm dros y Rhybudd, yna yn unol â'r holl wybodaeth am Drais yn Erbyn Merched (ar wahân i Gam-drin Domestig sy'n cael ei gynnwys mewn Atodiad) efallai y bydd angen ystyried y risg y bydd mwy o ddioddefwyr yn ferched a sut i sicrhau nad y llwybr Rhybudd sy'n cael ei ddilyn oherwydd y perygl o orfodaeth ac ofn/pwysau.
- Oedran: Fel y soniwyd yn flaenorol, nid oes llawer o wybodaeth, os o gwbl, yn y Cod Ymarfer os yw'r dioddefwr o dan 18 oed.

**17.Yn eich barn chi, a oes unrhyw rannau o'r Cod Ymarfer (sydd heb eu trafod eisoes mewn cwestiynau blaenorol) sydd yn galw am fwy o eglurhad?**

Nac oes

**18.Os oes, nodwch y rhan o'r Cod Ymarfer sy'n galw am fwy o eglurhad a pham. Pa sylwadau eraill sydd gennych, os o gwbl, am faterion sydd heb eu trafod yn y cwestiynau blaenorol yn y ddogfen drwyddi draw?**

Roedd cyfranogwyr y gweithdy yn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch gweithredu Rhybuddion Dargyfeiriol a Chymunedol. Fodd bynnag, nodwyd her ychwanegol o ran yr hyfforddiant a ddarperir. Mae angen i hyfforddiant fod o ansawdd uchel gan sicrhau cysondeb ar draws sefydliadau, yn ogystal â rhwng rhengoedd a staff yr heddlu a fydd yn rhan o'r broses. Os nad yw'r hyfforddiant yn briodol, yna mae risg i amodau naill ai fod yn rhy drugarog neu i'r pegwn arall, lle bydd pobl yn debygol o fethu. Fel y cyfryw, mae hwn yn faes y teimlai ein haelodau bod angen ei ystyried er mwyn sicrhau cysondeb a thryloywder ar draws Cymru a Lloegr.

Hefyd, gallai fod angen rhannu gwybodaeth am gefnogaeth ddargyfeiriol o ansawdd da sy’n seiliedig ar dystiolaeth y gall troseddwyr gael mynediad ati (er enghraifft Cynllun Braenaru i Ferched a Checkpoint) fel bod llai o ddibyniaeth ar ymatebion cosbol (fel dirwyon). Gall yr opsiynau hyn amrywio rhwng Cymru a Lloegr a rhwng ardaloedd heddluoedd.